# Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu

| Rhif | Camau Gwella 2018/19 | Camau gweithredu y cytunwyd arnynt | Cynnydd fel y mae ym mis Tachwedd 2019 |
|---|---|---|---|
| 1 | Adolygu, diweddaru a hyrwyddo'r Strategaeth ar gyfer Atal Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo. | Adolygiad cyfnodol o'r Strategaeth a chodi ymwybyddiaeth fel sy'n berthnasol. | Mae Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd, y Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a'r Prif Archwilydd Mewnol wedi dechrau adolygiad o'r Strategaeth.<br>Ar ôl ei chwblhau, bydd y Strategaeth ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i'r UDA a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i gael sylwadau a chymeradwyaeth.<br>**Dyddiad cau 31 Mawrth 2020** |
| 2 | Adolygu Diwylliant Moesegol y Cyngor fel sy'n ofynnol gan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. | Adolygiad Archwilio Mewnol wedi'i gynllunio ar gyfer 2019/20. | Cynhaliwyd cyfarfod cwmpasu cychwynnol ac mae disgwyl i arolwg aelodau a staff gael ei ryddhau cyn bo hir.<br>**Dyddiad cau 31 Mawrth 2020** |
| 3 | Cwblhau a hyrwyddo'r Fframwaith Partneriaeth. | Fframwaith partneriaeth i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gofynion i'w cyfleu i unigolion perthnasol. | Pecyn Cymorth Partneriaeth diweddar bron wedi'i gwblhau. Yna, caiff ei gyflwyno i'r UDA a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i gael sylwadau a chymeradwyaeth.<br>**Dyddiad cau 31 Mawrth 2020** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **4** | Gwaith parhaus i hyrwyddo cod ymddygiad y swyddog, datgan cysylltiad, rhoddion a lletygarwch a rhannu pryderon. | Modiwl e-ddysgu i'w ryddhau a'r Swyddog Monitro i roi briff i uwch reolwyr a rheolwyr canol. | Mae modiwlau e-ddysgu ar Sefydlu Corfforaethol, Cod Ymddygiad a Rhannu Pryderon ar gael i'r holl staff ac mae'n orfodol eu bod yn cael eu cwblhau.<br><br>Rhaid i weithwyr newydd eu cwblhau o fewn y 6 mis cyntaf ac mae gan staff presennol 12 mis i'w cwblhau.<br><br>Mae cyfraddau staff sy'n cwblhau'r hyfforddiant fel a ganlyn (diweddarwyd 10/10/2019):<br>- Cyflwyniad 12%<br>- Cod ymddygiad 20%<br>- Rhannu Pryderon 19%<br><br>**Dyddiad cau 31 Mai 2020.** |
| **5** | Gwaith parhaus i weithredu gofynion y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. | Adolygiad Archwilio Mewnol o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol | Adolygiad Archwilio Mewnol o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol wedi'i gwblhau a dyfarnwyd sicrwydd canolig iddo yn gyffredinol. Mae adolygiad o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol mewn Ysgolion hefyd wedi'i gwblhau ac wedi derbyn sicrwydd lefel ganolig.<br><br>Mae gan y ddau gamau gweithredu ar waith lle mae angen gwelliannau, a bydd archwilio mewnol yn monitro cynnydd gan ddefnyddio'r system verto.<br><br>**Wedi'i gwblhau** |

| | Materion a nodwyd gan Archwilio Mewnol yn 2018/19 | Camau gweithredu y cytunwyd arnynt | |
|---|---|---|---|
| 6 | Adolygu a diweddaru'r Polisi Gwyngalchu Arian a chodi ymwybyddiaeth gyda swyddogion perthnasol. | Diweddaru'r Polisi Gwyngalchu Arian a chyfleu i swyddogion bod arian parod yn cael ei gasglu ar ran y Cyngor. | Polisi Gwyngalchu Arian wedi'i ddiweddaru a'i ddosbarthu i swyddogion perthnasol.<br><br>**Wedi'i gwblhau** |
| 7 | Diffinio hyfforddiant awch am risg a rheoli risg ar gyfer aelodau a swyddogion (staff). | Cytuno ar awch am risg a threfnu hyfforddiant i aelodau ac uwch reolwyr a rheolwyr canol ar reoli risg. | Awch am Risg wedi'i ddatblygu gyda mewnbwn gan yr UDA, y Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.<br><br>Hyfforddiant gloywi ar reoli risg ac awch am risg i ddechrau'n fuan.<br><br>**Dyddiad cau 31 Mawrth 2020** |